CYMDEITHAS DDYSGEDIG CYMRU
THE LEARNED SOCIETY OF WALES

# Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar
# Polisi Bwrsariaethau Teithio a Threuliau

## 1. Cyflwyniad

Mae ein bwrsariaethau Teithio a Threuliau yn cynnig cefnogaeth hanfodol i Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar i fynychu gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r gweithgareddau hyn yn bwysig er mwyn cyfnewid gwybodaeth, gwella proffiliau ymchwil, ac ehangu rhwydweithiau proffesiynol. O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, nid yw llawer o Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar yn gallu cael mynediad at arian ar gyfer hyn bellach. Drwy gynnig cefnogaeth i Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar trwy'r gronfa hon, rydym yn ceisio dileu rhwystrau i ymchwilwyr sy'n wynebu cyfyngiadau ariannol, a chaniatáu iddynt gael cydnabyddiaeth a datblygu yn eu gyrfaoedd.

Pwrpas y polisi hwn yw darparu fframwaith teg a chyfiawn ar gyfer dyfarnu bwrsariaethau teithio a threuliau i ymchwilwyr sy'n mynychu gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r polisi wedi cael ei ddatblygu drwy gytundeb gyda Grŵp Cynghori Cymdeithas Ddysgedig Cymru ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr.

## 2. Cwmpas

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i fwrsariaethau teithio a threuliau sydd wedi cael eu dyfarnu ar gyfer mynychu gweithgareddau allanol- hynny yw, gweithgareddau sydd heb gael eu trefnu gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru (CDdC). Bydd polisi bwrsariaeth ar wahân ar gyfer digwyddiadau sydd yn cael eu trefnu gan CDdC yn cael ei ryddhau ar ddyddiad diweddarach.

## 3. Y Cyllid Sydd ar Gael

Mae'r bwrsariaethau'n cael eu cefnogi trwy gyfraniadau hael Cymrodyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Gall Cymdeithas Ddysgedig Cymru ychwanegu at y cyfraniadau hyn hefyd trwy ddefnyddio cyllid craidd.

Bwriedir i'r holl gyllid gael ei ddyrannu a'i ddefnyddio o fewn yr un flwyddyn Gymdeithas ag y caiff ei gasglu. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y gellir cario arian heb ei wario drosodd i'r flwyddyn ganlynol.

Gall lefelau cyllid amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar lefel y cyfraniadau a'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r gan y Gymdeithas yr hawl i adolygu a diwygio'r dyraniad cyllid cyfan bob blwyddyn. O ganlyniad, bydd nifer y bwrsariaethau sydd ar gael yn cael eu penderfynu bob blwyddyn, yn dibynnu ar gyfanswm yr arian sydd ar gael y flwyddyn honno.

## 4. Meini Prawf Cymhwysedd

Er mwyn cael eich ystyried ar gyfer bwrsariaeth teithio a threuliau, rhaid i ymgeiswyr fodloni'r meini prawf canlynol:

- Bod yn 'Ymchwilydd Gyrfa Gynnar', sydd yn cael ei ddiffinio fel ymchwilydd sydd ddim yn gweithio'n hollol annibynnol ym maes ymchwil eto, ond sy'n gweithio mewn unrhyw ddisgyblaeth. Mae'n rhaid i ymgeiswyr egluro yn eu cais pam eu bod nhw'n ystyried eu hunain yn Ymchwilydd Gyrfa Gynnar.
- Bod yn gweithio fel ymchwilydd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys y rhai sydd wedi'u cyflogi mewn rôl ymchwil dan gontract (llawn amser neu ran-amser) mewn sefydliad a gydnabyddir yng Nghymru NEU ymchwilwyr annibynnol, llawrydd, heb gontract, sy'n byw yng Nghymru ac sydd yn gallu dangos eu bod yn dal i wneud gwaith ymchwil mewn rhyw gapasiti.
- Bod yn aelod o rwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Gynnar CDdC
- Cadarnhau eu bod nhw wedi archwilio opsiynau eraill a'u bod nhw naill ai ddim yn gymwys neu heb fod yn llwyddiannus.
- Gallu dangos gwerth a pherthnasedd mynychu'r gynhadledd ar gyfer datblygu eu gyrfa (gweler y meini prawf asesu a dethol am ragor o wybodaeth).

Mae'n rhaid i'r digwyddiad:

- Fod yn gynhadledd neu'n ddigwyddiad allanol (nid wedi ei drefnu gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru).
- Fod yn gyfle i'r ymgeisydd adeiladu eu proffil ymchwil, lledaenu canfyddiadau ymchwil, creu rhwydweithiau newydd, a/neu ehangu eu rhwydweithiau proffesiynol. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynadleddau, paneli, byrddau crwn, fforymau ac ymweliadau ymchwil.

Os nad yw ymgeiswyr posibl yn sicr os yw eu gweithgaredd a gynlluniwyd yn disgyn o fewn gwmpas y cynllun hwn, gallant anfon e-bost at y tîm Datblygu Ymchwilwyr yn researcherdevelopment@lsw.wales.ac.uk

Yn ogystal, mae Cymdeithas Ddysgedig Cymru wedi ymrwymo i gynnwys Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ein gweithrediadau, a chyfyngu teithio diangen. Rydym yn annog ymgeiswyr i ystyried opsiynau teithio carbon isel. Felly, mae'n rhaid i ymgeiswyr

esbonio'n glir haniaeth eu teithio a dangos pam nad yw'n rhesymol bosibl iddynt gymryd rhan mewn ffyrdd eraill, fel mynychu'n rhithwir.

Mae'r meini prawf cymhwysedd wedi'u cynllunio i adlewyrchu natur gystadleuol y cynllun bwrsariaeth hwn, ac i sicrhau bod y cyllid cyfyngedig yn cael ei roi i'r rhai a fydd yn elwa fwyaf. Nid yw bodloni'r meini prawf cymhwysedd yn gwarantu y byddwch yn cael cyllid, a bydd asesiadau yn cael eu hasesu ar sail teilyngdod a chysoni gyda nodau'r cynllun.

## 5. Y Costau y Telir Amdanynt

Gall ymgeiswyr hawlio rhwng £100 a £1000. Gall bwrsariaethau addysg dalu costau llawn neu rannol, yn dibynnu ar faint o gyllid sydd ar gael ac yn sgil asesu anghenion.

Y costau y telir amdanynt

- Teithio, fel arfer trwy drafnidiaeth gyhoeddus (tocynnau safonol/economaidd)
- Llety safonol rhesymol am y noson cyn ac/neu ar ôl y digwyddiad (yn dibynnu ar yr amseroedd teithio)
- Ffioedd cofrestru ar gyfer cynhadledd neu ddigwyddiad
- Costau cynhaliaeth rhesymol (edrychwch ar ganllawiau HMRC i gyfrifo eich lwfans dyddiol ar gyfer costau cynhaliaeth wrth deithio dramor)

Y costau sydd ddim yn cael eu talu amdanynt

- Hyfforddiant
- Teithio dosbarth cyntaf neu fusnes
- Teithio neu lety personol cyn/ar ôl y digwyddiad at ddibenion hamdden
- Treuliau alcohol neu'r minibar
- Digwyddiadau cymdeithasol neu giniawa mewn cynadleddau
- Ffioedd aelodaeth broffesiynol
- Prynu offer (e.e. gliniaduron, clustffonau)
- Contractau Wi-Fi a ffôn
- Costau sydd wedi cael eu talu amdanynt yn barod gan ffynhonnell ariannu neu sefydliad arall

## 6. Y Broses Ymgeisio

Bydd ceisiadau'n agor ym mis Ionawr bob blwyddyn, a byddant yn para am gyfnod o chwe wythnos. Bydd y cynllun yn cael ei hyrwyddo trwy ein Cylchlythyr Rhwydwaith Ymchwilwyr Gyrfa Cynnar, Cylchlythyr Cymdeithas Ddysgedig Cymru, ar ein gwefan, ac ar ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Os na fydd yr holl arian yn cael ei ddyfarnu yn y rownd gychwynnol, bydd galwad arall am geisiadau'n agor erbyn diwedd mis Mawrth.

Mae'n rhaid i'r holl ymgeiswyr sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodir yn adran 4 o'r polisi hwn cyn cyflwyno cais. Bydd ceisiadau na fydd yn bodloni'r meini prawf hyn yn cael eu gwrthod ar unwaith.

Ni fydd ceisiadau anghyflawn yn cael eu hystyried.

## 7. Meini Prawf Asesu a Dethol

Bydd ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd (adran 4) yn cael eu hadolygu gan banel penodedig, sy'n cynnwys aelodau Grŵp Cynghori CDdC ar gyfer Datblygu Ymchwilwyr, a fydd yn asesu pob cais ac yn ystyried gwerth y gweithgaredd a gynigwyd, ei berthnasedd i waith ymchwil neu ddatblygiad gyrfa y gwaith neu'r sefydliad, effaith bosibl eu presenoldeb ar waith yr ymgeisydd neu'r sefydliad, a p'un a yw'n cynrychioli gwerth am arian ac yn ystyried cynaliadwyedd. Bydd blaenoriaeth yn cael ei roi i ymgeiswyr o dan yr amodau canlynol:

- Ymgeiswyr sydd wedi cael eu gwahodd i siarad, cyflwyno neu gymryd rhan mewn rôl ffurfiol
- Ceisiadau sydd yn amlinellu cyfleoedd datblygu proffesiynol neu rwydweithio penodol sydd yn gallu eu helpu i gyflawni nodau effaith ymchwil hirdymor
- Ymgeiswyr sydd yn dangos cysylltiad clir rhwng y digwyddiad a'u llwybr ymchwil presennol
- Ymgeiswyr sydd heb dderbyn bwrsariaeth teithio a threuliau gan CDdC o'r blaen i fynychu digwyddiad allanol

Bydd y panel yn ystyried argaeledd cyffredinol y cronfeydd hefyd, ac efallai y byddant yn addasu symiau dyfarniadau unigol i sicrhau dosbarthiad teg. Mae penderfyniad y panel yn derfynol. Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod am ganlyniad eu cais drwy e-bost. Bydd hysbysiadau'n cael eu hanfon o fewn 6 wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer anfon cais.

## 8. Talu ac Ad-dalu

Mae'r rheiny sydd yn derbyn bwrsariaeth yn gyfrifol am drefnu eu teithio eu hunain. Ni all Cymdeithas Ddysgedig Cymru wneud archebion teithio neu lety ar ran yr ymgeisydd. Fel arfer, bydd taliadau'n cael eu gwneud yn uniongyrchol i sefydliad lletya'r ymgeisydd llwyddiannus. Bydd CDdC yn rhoi archeb brynu i'r ymchwilydd i'w rhannu gyda'u hadran gyllid. Bydd y sefydliad lletya yn gyfrifol am ad-dalu costau trwy ei brosesau ad-dalu a chyllido arferol. Rhaid cydymffurfio â phob caniatâd teithio, asesiad risg, yswiriant, a chaniatâd arall sydd ei angen gan y sefydliad lletya.

Cyn y gellir ad-dalu costau, rhaid i'r sefydliad lletya gyflwyno anfoneb i CDdC, yn dyfynnu'r rhif archeb brynu perthnasol. Bydd angen i ymchwilwyr ddarparu derbynebau

wedi'u heitemeiddio neu gopïau o'r costau sydd yn cael eu hawlio i CDdC er mwyn i'r taliadau gael eu hawdurdodi.

Mewn amgylchiadau eithriadol, er enghraifft, pan nad yw ymchwilydd yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliad neu pan fo gwerth y grant yn isel iawn, gellir ystyried gwneud taliadau uniongyrchol i'r ymchwilydd. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r ymchwilydd ddarparu derbynebau wedi'u heitemeiddio a thystiolaeth ar gyfer yr holl gostau a grëwyd

Ni fydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn gyfrifol am unrhyw drefniadau teithio neu lety, ac ni fydd yn ad-dalu unrhyw incwm tan fod y gwariant wedi digwydd (nodwch mai'r unig ffordd y gellir talu yw trwy drosglwyddiad i gyfrif banc yn y DU mewn GBP).

Rhaid i'r holl gostau teithio a gwariant gael eu cymeradwyo gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru cyn i unrhyw gostau gael eu creu.

## 9. Gofynion Adrodd

Mae'n rhaid i'r rheiny sy'n derbyn bwrsariaethau teithio a threuliau sy'n fwy na £250 gyflwyno adroddiad terfynol o fewn un mis ar ôl dychwelyd o'r gynhadledd neu'r digwyddiad. Bydd y derbynnydd yn derbyn dogfen dempled ar gyfer adrodd, a fydd yn cynnwys crynodeb o'r digwyddiad a rôl y derbynnydd, yn ogystal ag esboniad o sut y gwnaeth mynychu'r digwyddiad gyfrannu at eu hymchwil, datblygiad gyrfa a'u twf proffesiynol.

Disgwylir i bawb sydd yn derbyn bwrsariaeth gydnabod cefnogaeth Cymdeithas Ddysgedig Cymru mewn unrhyw negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol, blogiau, neu mewn unrhyw ohebiaeth arall sy'n ymwneud â'r digwyddiad. Mae hyn yn cynnwys cydnabod y Gymdeithas ar unrhyw sleidiau cyflwyniad neu ar bosteri ymchwil sydd yn cael eu harddangos yn ystod y digwyddiad.

## 10. Cyfrifoldeb

Mae cyfrifoldeb am Gynllun Bwrsariaethau Teithiau a Threuliau Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn perthyn i'r Tîm Datblygu Ymchwilwyr, a fydd yn gyfrifol am reoli a goruchwylio'r cynllun.